
Ysgol Syr Thomas Jones

# Prosbectws
# Prospectus









*"Gorau athro ymgais"*




Prosbectws llawn ar gael ar ein wefan

www.ysgolsyrthomasjones.cymru

Full prospectus available on our website

# Croesawiad Prifathro
## *Headmasters Welcome*





Mae'n bleser gennyf i gyflwyno'r prosbectws hwn i chi, disgyblion, rhieni a chyfeillion Ysgol Syr Thomas Jones.
Ysgol ddwyieithog yw Ysgol Syr Thomas Jones yn gwasanaethu cymunedau yng ngogledd ddwyrain Ynys Môn, gydag oddeutu 540 o bobl ifanc rhwng 11-18 oed yn mynychu. Mae yma gymuned glos ac ethos teuluol a chefnogol iawn yn yr Ysgol, ac o ganlyniad, mae ein pobl ifanc yn falch iawn o'u hysgol a'r Ysgol yn falch iawn ohonynt hwythau.
Ein gweledigaeth yma yn yr Ysgol yw darparu profiadau addysgol ac allgyrsiol sydd yn meithrin dysgwyr Parchus, Parod ac ar eu Gorau, sydd â'r sgiliau allweddol i fod yn ddinasyddion cyfrifol, mentrus ac uchelgeisiol, er mwyn cyflawni eu llawn potensial.
Mae gennym dîm ymroddedig o staff yn yr ysgol sydd yn sicrhau gofal ac arweiniad i'n dysgwyr, er mwyn cael dylanwad cadarnhaol ar fywydau ein pobl ifanc.
Rwyf yn falch iawn o gael bod yn Bennaeth ar Ysgol Syr Thomas Jones; hyderaf mai trwy gyd-weithio gyda holl rhanddeiliaid yr ysgol, bydd yr Ysgol yn ffynnu a bydd profiadau ein dysgwyr tra yn ein gofal yn rhai bythgofiadwy.

*It is my pleasure to present this prospectus to you, pupils, parents and friends of Ysgol Syr Thomas Jones.*
*Ysgol Syr Thomas Jones is a bilingual school serving communities in the north east of Anglesey, with approximately 540 young people between the ages of 11-18 attending. There is a close-knit community and a very supportive family ethos at the School, and as a result, our young people are very proud of their school and the School is very proud of them.*
*Our vision here at the School is to provide educational and extracurricular experiences that foster Respectful, Ready and at their best learners, who have the key skills to be responsible, enterprising and ambitious citizens, in order to achieve their full potential.*
*We have a dedicated team of staff at the school who ensure care and guidance for our learners, in order to have a positive influence on the lives of our young people.*
*I am very proud to be Head of Ysgol Syr Thomas Jones; I trust that by working together with all the school's stakeholders, the School will flourish and the experiences of our learners while in our care will be unforgettable.*

Mr Dylan Jones ( Prifathro/ Headmaster)

# CA3 / KS3

Bl 7,8 a 9 / *Yr 7,8 & 9*

Yn CA3, mae'r cwricwlwm ysgol yn cynnig cyfle i'r disgyblion ddatblygu eu sgiliau ym mhob maes astudio. Mae'r ysgol yn cynnig gwersi i gael eu haddysgu yn Saesneg ac yn Gymraeg i sicrhau bod gan bob disgybl yr un gallu i gyflawni eu potensial llawn ymhob pwnc.

Ar ddiwedd CA3 bydd y disgyblion yn cael y cyfle i ddewis y pynciau y maent am eu hastudio yn CA4 ar gyfer eu TGAU. Bydd y pynciau sydd ar gael yn CA3 yn caniatáu i'r disgyblion ennill sgiliau mewn pynciau nad ydynt erioed wedi'u hastudio o'r blaen ac yn codi hyder yn eu galloedd eu hunain ar gyfer y dyfodol.

*In KS3 the school curriculum offers the pupils a chance to develop their skills in all areas of study. The school offers the lessons to be taught in both English and Welsh to ensure each individual pupil has the same ability of achieving their full potential in the subjects taught.*

*At the end of KS3 the pupils will have the opportunity to choose the subjects they wish to study in KS4 for their GCSEs. The subjects on offer in KS3 will allow the pupils to gain skills in subjects they've never studied before and build confidence in their own abilities for the future.*







## Y cyrsiau / *The courses*

| | |
|---|---|
| CYMRAEG | WELSH |
| SAESNEG | ENGLISH |
| MATHEMATEG | MATHEMATICS |
| GWYDDONIAETH | SCIENCE |
| ASTUDIAETHAU CREFYDDOL | RELIGIOUS STUDIES |
| CELF A DYLUNIO | ART AND DESIGN |
| DRAMA | DRAMA |
| DYLUNIO A TECHNOLEG | DESIGN AND TECHNOLOGY |
| ADDYS GORFFOROL | PHYSICAL EDUCATION |
| CERDD | MUSIC |
| HANES | HISTORY |
| DAEARYDDIAETH | GEOGRAPHY |
| FFRANGEG | FRENCH |
| TGCH | ICT |



# CA4 / *KS4*


## Bl 10 A 11 / *Yr 10 & 11*

### Y cyrsiau / *The courses*

| | |
|---|---|
| CYMRAEG IAITH | WELSH LANGUAGE |
| CYMRAEG LLENYDDIAETH | WELSH LITERATURE |
| SAESNEG IAITH | ENGLISH LANGUAGE |
| SAESNEG LLENYDDIAETH | ENGLISH LITERATURE |
| MATHEMATEG | MATHEMATICS |
| GWYDDONIAETH | SCIENCE |
| GWYDDONIAETH DRIPHLYG | TRIPLE SCIENCE |
| ASTUDIAETHAU BUSNES | BUSINESS STUDIES |
| ASTUDIAETHAU CREFYDDOL | RELIGIOUS STUDIES |
| CELF A DYLUNIO | ART AND DESIGN |
| DRAMA | DRAMA |
| ADDYS GORFFOROL | PHYSICAL EDUCATION |
| CERDD | MUSIC |
| HANES | HISTORY |
| DAEARYDDIAETH | GEOGRAPHY |
| FFRANGEG | FRENCH |
| TECHNOLEG- DYLUNIO CYNNYRCH | TECHNOLOGY- PRODUCT DESIGN |
| BWYD A MAETH | HOSPITALITY AND CATERING |
| IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL | HEALTH AND SOCIAL CARE |
| AMGYLCHEDD ADEILEDIG | BUILT ENVIRONMENT |
| TGCH | ICT |

Mae Coleg Menai hefyd yn darparu cyrsiau i'r myfyrwyr ar safleoedd Llangefni neu Bangor. Trefnir cludiant gan yr ysgol i gael y myfyrwyr i'r colegau ac oddi yno.

*Coleg Menai also provides courses for the students in either the Llangefni or Bangor facilities. Transport is arranged by the school to get the students to and from the colleges.*



# CA5 / *KS5*

Bl 12 a 13 / *Yr 12 & 13*

Mae'r chweched dosbarth yn amser i fyfyrwyr leihau eu dewisiadau pwnc i'r pynciau hanfodol sydd eu hangen arnynt ar gyfer y Brifysgol, Coleg Addysg Bellach neu Brentisiaeth. Mae'r ysgol yn gweithio ochr yn ochr â sefydliadau eraill ar yr Ynys i ganiatáu y cyfleoedd y mae'r myfyrwyr angen iddynt symyd i'r cam nesaf yn eu bywydau.
*Sixth form is a time for students to narrow down their subject options to the essential subjects they will need to get into University, College or Apprenticeship course. The school works alongside other establishments on the Island to allow the students the opportunities they need to go onto the next step in their lives.*

## Y cyrsiau / The courses

| | |
|---|---|
| CYMRAEG LLENYDDIAETH | WELSH LITERATURE |
| SAESNEG LLENYDDIAETH | ENGLISH LITERATURE |
| MATHEMATEG | MATHEMATICS |
| FFISEG | PHYSICS |
| CEMEG | CHEMISTRY |
| BIOLEG | BIOLOGY |
| ASTUDIAETHAU BUSNES | BUSINESS STUDIES |
| ASTUDIAETHAU CREFYDDOL | RELIGIOUS STUDIES |
| CELF A DYLUNIO | ART AND DESIGN |
| DRAMA * | DRAMA * |
| ADDYS GORFFOROL * | PHYSICAL EDUCATION * |
| CERDD * | MUSIC * |
| HANES | HISTORY |
| DAEARYDDIAETH * | GEOGRAPHY * |
| FFRANGEG * | FRENCH * |
| TECHNOLEG- DYLUNIO CYNNYRCH | TECHNOLOGY- PRODUCT DESIGN |
| TGCH | ICT |
| ALMAENEG * | GERMAN * |
| Y GYFRAITH * | LAW * |
| SEICOLEG | PSYCHOLOGY |
| MATHEMATEG PELLACH * | FURTHER MATHEMATICS * |
| GWYDDONIAETH MEDDYGOL * | MEDICAL SCIENCE * |

* Cyrsiau tu allan i'r cyfleusterau ysgol / Courses outside school facilities












# Allgyrsiol
# *Extracurricular*













# Gwisg ysgol / *School uniform*




**Addurniadau'r corff** –
"stud" ym mhob clust.
Un ym mhob clust yw'r uchafswm. Ni chaniateir gwisgo "studs" na modrwyau ar unrhyw ran arall o'r corff yn yr ysgol.
**Body decorations** –
*the maximum amount is one stud in each ear. Studs and rings in any other part of the body are not permitted in school.*




**Colur** – Dylai colur sy'n cael ei wisgo edrych yn naturiol.
**Make up** – *All make up should look natural.*

**Sgertiau** – sgert ysgol ddu. Ni chaniateir hyd afresymol o gwta. Gyda sgert gwta, dylid gwisgo teits trwchus.
**Skirts** – *black school skirt. The length cannot be unacceptably short. Opaque black tights should be worn with all short skirts.*

**Lliw ewinedd** –
Yn CA3, ni ddylid gwisgo lliw ar yr ewinedd am resymau hylendid a diogelwch yn Y Gweithdy.
**Nail polish** -
*In KS3, no coloured nail polish is allowed for hygiene and Health and Safety reasons in the workshops.*

**Sanau** – du, llwyd, glas tywyll neu wyn.
**Socks** – *black, navy, grey or white.*



**Gwallt** – ni chaniateir addurniadau megis blodau yn y gwallt. Y mae'n rhaid i fandiau gwallt fod yn ddu neu las tywyll. Dylai'r lliw fod yn un naturiol. Ni chaniateir sdeil "tramlines". Os yn torri'r gwallt efo peiriant ni ddylai fod yn îs na rhif 2 . Ni ddylai llinell ymddangos rhwng y torri efo'r peiriant a gweddill y gwallt sydd wedi'i dorri efo siswrn – h.y. dim "step".
**Hair** – *hair decorations such as flowers are not allowed. Hairbands should be either black or navy and the hair colour should be of a natural tone. Styles such as tramlines are not acceptable. If the hair is trimmed using hair clippers, the number should be no lower than 2. There should be no line between the hair trimmed with clippers and the hair cut by scissors – i.e. no step.*





**Trowsus** – trowsus ysgol du. Ni chaniateir gwisgo "jeans" na "joggers".
**Trousers** - *black school trousers. Jeans and joggers are not allowed.*




**Esgidiau** duon ysgol heb UNRHYW farciau lliw. Caniateir "trainers" duon hollol blaen.
*Black school* **shoes** *WITHOUT any colour marks. Plain black trainers are acceptable.*